

Gweithredu argymhellion Archwilio Cymru i wella'r Gwasanaeth Cynllunio

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Rhagfyr 2025

Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei aildefnyddio, rhaid i'ch aildefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwilio	4
Ein canfyddiadau	6
Argymhellion	11
Atodiadau	12
1 Ynglŷn â'n gwaith	13
2 Ffurflen Ymateb Sefydliadol y Gwasanaeth Cynllunio 2023	15

Ciplun archwilio

Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

- 1 Ym mis Mehefin 2023, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) ar ei Wasanaeth Cynllunio¹ (y gwasanaeth). Gwnaethom bedwar argymhelliad. Ym mis Gorffennaf 2023, derbyniodd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yr adroddiad hwn ynghyd â chymau gweithredu'r Cyngor i fynd i'r afael â'r argymhellion (gweler **Atodiad 2**). Edrychodd yr archwiliad hwn ar a yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â nhw.
- 2 Fe wnaethom hefyd edrych ar drefniadau'r Cyngor i fonitro ac adrodd ar ei gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion archwilio allanol. Fe wnaethom ddefnyddio argymhellion y pedwar gwasanaeth i asesu'r trefniadau.
- 3 Fe wnaethom gynnal yr archwiliad hwn ym mis Hydref 2025.

Pam mae hyn yn bwysig

- 4 Mae adroddiadau archwilio allanol yn darparu barn annibynnol ar drefniadau'r Cyngor. Mae ein hadroddiadau'n cynnwys argymhellion i'r Cyngor pan fyddwn yn nodi bylchau neu wendidau yn ei drefniadau. Gall gweithredu ar yr argymhellion hyn helpu i wella parhaus. Dyna pam mae'n bwysig i'r Cyngor gael trefniadau effeithiol i fonitro a herio cynnydd yn eu herbyn.

¹ Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio | Archwilio Cymru

Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 5 Er gwaethaf heriau staffio, mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'n hargymhellion. Nid oedd gan y Cyngor systemau cryf i olrhain argymhellion archwilio allanol, ond drwy'r model ffederal gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, mae'n gwneud gwelliannau.

Yr hyn a argymhellir gennym

- 6 Gwnaethom un argymhelliad i'r Cyngor adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau wrth oruchwyllo ei argymhellion archwilio allanol.

Ein canfyddiadau

Er gwaethaf heriau staffio, mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhellion

- 7 Ers ein harchwiliad yn 2023, mae'r gwasanaeth yn wynebu problemau staffio sy'n effeithio ar ei allu, gan gynnwys absenoldeb salwch, secondiadau, ymddeoliadau, absenoldeb mamolaeth, a swyddi gwag. Er gwaethaf hyn, mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhellion, er nad yw pob un yn gyflawn.
- 8 Gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd, newidiodd y gwasanaeth y Cynllun Busnes Datblygu ac Ystadau (y cynllun busnes) i fod yn gliriach ar sut mae'n cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor (argymhelliad 2). Cwblhaodd y gwasanaeth hyn o fewn ei amserlen ddisgwyliedig.
- 9 Mae'r gwasanaeth yn gweithredu system TG newydd (Idox) sy'n gwneud gwybodaeth gynllunio yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Mae hefyd yn cefnogi'r gwasanaeth i fonitro ei berfformiad a gwella ansawdd data (argymhelliad 3). Defnyddiodd y gwasanaeth y system gyntaf i adrodd ei ddata perfformiad Ch4 2024-25. Er bod y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, ni wnaeth ei gwblhau o fewn ei amserlen.
- 10 Diwygiodd y gwasanaeth ei Brotocol Cynllunio a'i Gynllun Dirprwyo (argymhelliad 4). Ym mis Medi 2023, cymeradwyodd y Cyngor llawn newidiadau i'r Cynllun Cynllunio Dirprwyo. Roedd hyn o fewn amserlen y Cyngor. Cymeradwyodd y Pwyllgor Cynllunio y Protocol Cynllunio ym mis Tachwedd 2023, ychydig yn hwyrach na'i amserlen. Diwygiodd y gwasanaeth hefyd nifer o'i Hysbysiadau Cyngor Cyhoeddus (PANs), felly gwnaeth fwy nag oedd ei angen i fynd i'r afael â'r argymhelliad. Mae'r dogfennau diwygiedig yn cyflwyno'n glir y trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau sy'n cefnogi'r Pwyllgor Cynllunio a'r gwasanaeth. Cafodd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio hyfforddiant da i'w hysbysu am y newidiadau.

- 11 Mae cynllun busnes y gwasanaeth yn rhestru sawl mesur perfformiad ond nid yw'n cynnwys data sylfaenol na thargedau (argymhelliad 1). Fodd bynnag, mewn nosod yn y cynllun busnes mae adroddiadau perfformiad y gwasanaeth i'r Pwyllgor Cynllunio. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos sut mae'r gwasanaeth yn perfformio yn erbyn tri dangosydd cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a sut mae'n cymharu ag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill². Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cynnwys yr holl fesurau perfformiad cynllun busnes a thargedau perfformiad yn y dyfodol. O ganlyniad, mae'n anodd deall uchelgeisiau perfformiad y gwasanaeth.
- 12 Mae'r model ffederal gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi arwain at fwy o ffocws ar reoli perfformiad yn y Cyngor³. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau datblygu cerdyn sgorio perfformiad yn ddiweddar. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn adolygu ei gynlluniau busnes ac yn creu dangosfyrddau perfformiad a fydd yn cynnwys data sylfaenol a thargedau. Dylai'r gwelliannau hyn helpu'r Cyngor i flaenoriaethu'r hyn sy'n bwysig, deall sut mae'n perfformio, a gwneud penderfyniadau gwybodus.
- 13 Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â thri o'r argymhellion. Mae gwaith ar y gweill i gwblhau'r un sy'n weddill.

² [Arolygon chwarterol rheoli datblygu | LLYW. CYMRU](#)

³ Mae cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Thorfaen wedi cytuno i weithio mewn ffederasiwn i gryfhau gallu strategol, gwella gwytnwch, a chyflawni canlyniadau gwell i drigolion a chymunedau, tra'n cynnal sofraniaeth, atebolrwydd democrataidd, ac annibyniaeth statudol pob Cyngor. Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Adroddiad i'r Cyngor Llawn, Hydref 2025

Nid oedd gan y Cyngor drefniadau cadarn i fonitro argymhellion archwilio allanol, ond trwy'r dull ffederal mae'n gwneud gwelliannau

- 14 Ar yr adeg y gwnaethom gyhoeddi adroddiad y Gwasanaeth Cynllunio, nid oedd gan y Cyngor drefniadau cadarn i fonitro ac adrodd ar ei gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi dechrau cyflwyno trefniadau newydd i reoli a monitro argymhellion archwilio allanol drwy ddysgu o'r model ffederal gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Ar adeg yr archwiliad hwn, nid oedd yr holl drefniadau yn eu lle. Er nad ydym yn gallu asesu effeithiolrwydd y trefniadau newydd, rydym wedi nodi isod lle maent yn debygol o gryfhau rhai o'r gwendidau blaenorol.
- 15 Ym mis Hydref 2024, derbyniodd Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor adroddiad yn cynnwys argymhellion allanol gyda rhesymau a ddarparwyd gan y gwasanaethau perthnasol i gau pob un ohonynt. Roedd yn cynnwys pedwar argymhelliad y Gwasanaeth Cynllunio. Fodd bynnag, roedd yr esboniadau i gau tri o'r pedwar argymhelliad y Gwasanaeth Cynllunio yr un fath ac nid oeddent yn mynd i'r afael â'r argymhellion yn llawn. Nid yw hyn yn rhoi hyder i ni fod trefniadau goruchwyllo uwch swyddogion yn gadarn.
- 16 Ar yr adeg y gwnaethom gyhoeddi adroddiad y Gwasanaeth Cynllunio, derbyniodd y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiadau archwilio allanol ynghyd â'r ffurflen ymateb rheolwyr berthnasol (MRF). Fodd bynnag, nid oedd gan y Cyngor drefniant i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ei gynnydd wrth fynd i'r afael â nhw. Roedd hyn yn golygu nad oedd aelodau yn gallu cael sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud cynnydd. Fe wnaethom adrodd am y diffyg goruchwyliaeth aelodau hwn yn ein hadroddiad dilynol Diogelu Corfforaethol⁴.

⁴ [Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Adroddiad Dilynol Trefniadau Diogelu Corfforaethol | Archwilio Cymru](#)

- 17 Mewn ymateb, mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau goruchwyllo uwch swyddogion ac aelodau. Nawr, pan fydd y Cyngor yn derbyn adroddiad archwilio allanol, mae Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor yn ei adolygu ynghyd â'r MRF wedi'i gwblhau. Yna bydd y Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio perthnasol yn derbyn yr adroddiad a'r MRF. Dylai'r broses hon sicrhau bod yr holl uwch swyddogion ac aelodau yn ymwybodol o adroddiadau archwilio allanol ac yn cymeradwyo'r camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion cyn i'r rhain gael eu rhoi ar waith.
- 18 Mae'r Cyngor hefyd yn gwella sut mae'n monitro cynnydd. Ym mis Mehefin 2025, derbyniodd y Pwyllgorau Craffu eu hadroddiad cyntaf ar gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion allanol. Ar adeg yr archwiliad hwn, roedd y Cyngor yn gwneud newidiadau pellach. O fis Tachwedd 2025 ymlaen, bydd y Cyd-dîm Gweithredol newydd yn derbyn diweddariadau chwarterol ac o fis Ebrill 2026, bydd y Pwyllgorau Craffu a Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiadau cynnydd blyneddol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i uwch swyddogion ac aelodau adolygu a herio'r cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd adrodd rheolaidd i'r Cyd-dîm Gweithredol yn caniatáu i uwch swyddogion wneud penderfyniadau amserol os nad oes cynnydd neu os oes angen newid.
- 19 Pan fydd y Cyd-dîm Gweithredol yn derbyn y diweddariadau chwarterol, bydd yn penderfynu a oes digon o gynnydd wedi bod i gau argymhellion. Ni fydd angen monitro y rhain yn y dyfodol mwyach. Yna bydd y pwyllgor craffu perthnasol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn craffu ac yn cymeradwyo'r penderfyniadau hyn. Dylai hyn wella eglurder a goruchwyliaeth o wneud penderfyniadau.
- 20 Mae trefniadau esblygol y Cyngor yn rhoi cyfrifoldebau newydd i aelodau. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r aelodau herio a chraffu:
- camau gweithredu arfaethedig;
 - cynnydd; ac
 - a yw argymhellion wedi'u hystyried ac y gellir eu cau.

Mae sicrhau bod gan aelodau ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau yn hanfodol ar gyfer effeithiolrwydd y trefniadau newydd.

- 21 Gan fod y Cyngor yn dal i ddatblygu ei drefniadau newydd, nid yw wedi eu profi eto i weld a ydyn nhw'n gweithio yn ôl y disgwyl. Ar ôl ei weithredu'n llawn, mae'n bwysig bod y Cyngor yn adolygu ei drefniadau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn effeithiol ac i nodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Argymhellion

A1 Adolygiad o drefniadau'r Cyngor

Unwaith y bydd y Cyngor wedi gweithredu ei drefniadau newydd ar gyfer goruchwyllo argymhellion archwilio allanol yn llawn, dylai werthuso effeithiolrwydd y rhain yn rheolaidd (**paragraff 21**).

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Roedd yr archwiliad hwn yn canolbwyntio ar a oedd y Gwasanaeth Cynllunio yn mynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yn 2023. Edrychodd yr archwiliad hwn hefyd ar drefniadau'r Cyngor i oruchwylio ac adrodd ar gynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion archwilio allanol a defnyddiwyd argymhellion y gwasanaeth i asesu'r trefniadau.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Ceisiodd yr archwiliad hwn ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad adolygu'r Gwasanaeth Cynllunio a gyhoeddwyd yn 2023?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i oruchwylio sut mae'n mynd i'r afael ag argymhellion archwilio allanol?

Meini prawf

Fe wnaethom asesu:

- gweithredodd y Cyngor yn unol â'i amserlenni disgwylidig;
- bod cynllun busnes Datblygu ac Ystadau yn dangos sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor gyda mesurau perfformiad gan gynnwys data sylfaenol a thargedau;
- bod gan y gwasanaeth drefniadau ansawdd data cadarn sy'n sicrhau ei fod yn adrodd ei berfformiad yn gywir;

- diwygiodd y Cyngor ei gynllun dirprwyo a phrotocol cynllunio;
- bod y Cyngor yn cyflwyno adroddiadau archwilio allanol i aelodau ac uwch swyddogion;
- bod cofrestr ganolog o argymhellion archwilio allanol;
- bod gwasanaethau gydag argymhellion archwilio allanol yn darparu diweddariadau cynnydd yn unol â gofynion corfforaethol;
- bod aelodau ac uwch swyddogion yn derbyn diweddariadau ar gynnydd yn erbyn ei gamau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio allanol a darparu her;
- bod trefniant i aelodau ac uwch swyddogion benderfynu pryd y mae argymhelliad archwilio allanol wedi'i ymdrin â nhw; a
- bod y Cyngor yn deall effaith mynd i'r afael ag argymhellion archwilio allanol.

Dulliau

Fe wnaethom ddarllen dogfennau, gwyllo cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a chyfweld â swyddogion ac aelodau.

2 Ffurflen Ymateb Sefydliadol y Gwasanaeth Cynllunio 2023

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	Cynnwys mesurau perfformiad yng nghynllun busnes Datblygu ac Ystadau i ddangos uchelgeisiau perfformiad y gwasanaeth ac i alluogi monitro y gwasanaeth yn effeithiol	Gwaith i'w wneud gyda'r Gwasanaeth Cynllunio a'r Tîm Perfformiad i gynnwys data cenedlaethol, gwybodaeth sydd ar gael bob chwarter. Gwaith pellach i'w wneud gyda'r Gwasanaeth Cynllunio a'r Tîm Perfformiad i edrych ar sefydlu PI lleol a'u cynnwys yn y System Gynllunio newydd gan gynnwys darnau data ar gyfer adrodd yn y dyfodol.	Yn unol â ffurflenni chwarterol. Erbyn Ebrill 2024	Tîm Gwasanaeth Cynllunio a Pherfformiad

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol	Cyf	Argymhelliad
A2	Cynnwys yn y cynllun busnes Datblygu ac Ystadau cyfraniad y gwasanaeth tuag at gyflawni amcanion corfforaethol y Cyngor i ddangos ei rôl galluogi bwysig.	Gwaith i'w wneud gyda'r Gwasanaeth Cynllunio a'r Tîm Perfformiad i adolygu'r cynlluniau busnes cyfredol yn y gwasanaeth a gwneud aliniadau i'r Cynllun Corfforaethol.	O fewn 3 mis	Planning Service and Performance Team
A3	Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod gan y gwasanaeth cynllunio drefniadau ansawdd data cadarn i sicrhau ei fod yn adrodd data perfformiad cywir fel y gall staff, aelodau, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd ddibynnu ar ei uniondeb i wneud penderfyniadau cywir a gwybodus.	Gwybodaeth gynllunio i'w chynnwys yn adroddiad y gyfarwyddiaeth ar gyfer Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol yn ogystal â'r Adroddiad ar y Cyd. Bydd gwybodaeth cynllunio hefyd yn cael ei chynnwys yn hunanasesiad blynyddol y Cyngor.	Yn unol â gofynion adrodd drwy'r broses ddemocrataidd Erbyn Hydref 2023	Tîm Perfformiad Gwasanaeth Cynllunio
A4	Cyngor Llawn i ystyried canlyniad y cynllun dirprwyo ac adolygiad protocol cynllunio erbyn haf 2023 a phenderfynu ar drefniadau llywodraethu cynllunio yn y dyfodol.	Gwaith yn parhau i symud ymlaen â hyn. Trafodaeth i'w chynnal gyda'r Swyddog Monitro i symud ymlaen.	Adrodd drwy'r Pwyllgor ym mis Medi 2023	Gwasanaethau Cynllunio, Cyfreithiol a Democrataidd

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y defnydd o adnoddau gan y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'r rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.